



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwella Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig Cymru (NIPEC) Canllawiau Fframwaith Adolygiad gan Gymheiriaid



1. Trosolwg

Mae'r fframwaith adolygiad gan gymheiriaid Archwiliadau Corfforol ar gyfer Babanod a Babanod Newydd-anedig Cymru (NIPEC) GIG Cymru hwn wedi'i ddatblygu i gynorthwyo ymarferwyr NIPEC i gofnodi a chynnal y sgiliau ymarferol sydd eu hangen i gynnal archwiliadau babanod newydd-anedig NIPEC.

Gall ymarferwyr NIPEC ddefnyddio'r fframwaith adolygiad gan gymheiriaid i'r dibenion canlynol:

- ❏ dangos tystiolaeth o arfer clinigol da yn unol â'r canllawiau cyfredol (aagic.gig.cymru/ein-gwaith/archwiliad-corfforol-y-newydd-anedig-ar-babanod-cymru-nipec)
- ❏ dangos tystiolaeth o ddysgu gydol oes a datblygiad proffesiynol parhaus
- ❏ galluogi darparwyr lleol i ddangos sicrwydd ansawdd yn lleol
- ❏ hyrwyddo cysondeb yn ymarferol ar draws pob disgyblaeth (meddygaeth, bydwreigiaeth a nyrsio)

Bwriedir i'r fframwaith adolygiad gan gymheiriaid gael ei ddefnyddio gan ymarferwyr NIPEC llawn gymwys, fel y'u diffinnir yn adran 13 y llawlyfr, ac adolygydd cymheiriaid. Gall hyn gynnwys staff meddygol, bydwreigiaeth a nyrsio. Oherwydd natur glinigol arsylwadau ac adolygiadau gan gymheiriaid, rhaid i'r adolygydd cymheiriaid enwebedig feddu ar gymhwyster NIPEC hefyd.

Darperir rhagor o wybodaeth am y rolau hyn oll yn y bedwaredd adran isod.

2. Argymhellion

Argymhellir adolygiadau gan gymheiriaid i roi sicrwydd bod archwiliadau NIPEC yn cael eu cyflawni'n unol â chanllawiau NIPEC (Llywodraeth Cymru 2023).

Dylai pob ymarferydd gwblhau'r Adolygiad gan gymheiriaid/fframwaith fel rhan o'u proses ailddilysu/arfarnu i ddangos cymhwysedd ymarferol.

Gellid defnyddio adolygiad gan gymheiriaid yn y senarios canlynol (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol, ac enghreifftiau yn unig sydd isod):

- ❏ fel y gofynnwyd gan ymarferydd unigol
- ❏ fel rhan o raglen ddatblygu
- ❏ mewn ymateb i ddigwyddiad
- ❏ ar ddechrau cyflogaeth
- ❏ ar ôl cyfnod o absenoldeb o'r gwaith
- ❏ pan yn newydd i fwrdd iechyd

Dylai fod gan ddarparwyr broses leol ar waith ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch arferion ymarferydd NIPEC babanod/newydd-anedig a nodwyd yn ystod adolygiad gan gymheiriaid.

3. Hyfforddiant, cynnal sgiliau a datblygiad proffesiynol parhaus

Cyfeiriwch at lawlyfr NIPEC am wybodaeth gyfredol ynghylch hyfforddiant a chynnal

sgiliau.

4. Gofynion a disgwyliadau

Mae'r adran hon yn nodi'r gofynion a'r disgwyliadau ar gyfer ymarferwyr NIPEC ac adolygwyr cymheiriaid.

4.1 Gofynion ar gyfer ymarferwyr sgrinio NIPEC:

Rhaid i ymarferwyr sgrinio NIPEC fodloni'r canlynol:

- ❏ meddu ar gymhwyster proffesiynol (cofrestredig â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) neu'n gymwysedig fel cydymaith meddygol)
- ❏ llawn gymwys fel ymarferydd NIPEC gweithredol, fel y'i diffinnir yn adran 13 llawlyfr NIPEC.

4.2 Yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan ymarferwyr NIPEC:

Mae gan ymarferwyr NIPEC gyfrifoldeb proffesiynol i gynnal cyfoesedd a chynnal eu sgiliau mewn perthynas ag archwiliadau babanod/babanod newydd-anedig NIPEC. Mae hyn yn cynnwys ymroi i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

4.3 Gofynion ar gyfer adolygwyr cymheiriaid:

Rhaid i adolygwyr cymheiriaid fodloni'r canlynol:

- ❏ meddu ar gymhwyster proffesiynol (cofrestredig gyda'r GMC neu'r NMC, neu'n gymwysedig fel cydymaith meddygol)
- ❏ llawn gymwys fel ymarferydd sgrinio NIPEC gweithredol, fel y'i diffinnir yn adran 13 llawlyfr NIPEC.
- ❏ arddel hyder wrth gynnal ac adolygu archwiliadau babanod/babanod newydd-anedig NIPEC – yn ddelfrydol drwy ymwneud â fframwaith dysgu blynyddol a fframwaith adolygiad gan gymheiriaid NIPEC.

4.4 Yr hyn sy'n ddisgwyliedig gan adolygwyr cymheiriaid:

Dylai'r adolygwyr cymheiriaid fodloni'r disgwyliadau canlynol:

Didueddrwydd

Rhaid i adolygwyr cymheiriaid gynnig adolygiadau diduedd, gan roi ystyriaeth ddiuedd i bob archwiliad babanod/babanod newydd-anedig y gofynnir iddynt ei arsylwi, gan osgoi unrhyw wrthdrawiad buddiannau.

Cydraddoldeb

Rhaid i adolygwyr cymheiriaid ymdrin â phob proses adolygu heb ystyried hil, crefydd, cenedligrwydd, rhyw neu hynafedd yr ymarferwyr NIPEC.

Cyfrinachedd

Rhaid i adolygwyr cymheiriaid gynnal cyfrinachedd ac ymatal rhag rhannu gwybodaeth ag unrhyw un y tu allan i'r broses adolygu gan cymheiriaid. Dylai llwybrau lleol fod mewn grym er budd uwchgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch arferion ymarferwyr NIPEC.

Ymagwedd

Rhaid i adolygwyr cymheiriaid gynnal ymagwedd adeiladol a chefnogol trwy gydol y

broses adolygu gan gymheiriaid a darparu adborth cynhwysfawr i'r ymarferwyr NIPEC yn dilyn eu harsylwadau.

5. Cwblhau'r fframwaith adolygiad gan gymheiriaid NIPEC

Dylai'r adolygwyr cymheiriaid sicrhau eu bod yn gyfarwydd â chanllawiau a Safonau Llywodraeth Cymru (2023) cyn cynnal yr adolygiadau.

Dylai'r adolygwyr cymheiriaid ddefnyddio arsylwadau clinigol i roi cymorth ac adborth i ymarferwyr NIPEC, gyda'r nod o:

- amlygu arferion da;
- nodi unrhyw fylchau o ran sgiliau ymarferol neu nodau dysgu, lle y gall camau gweithredu cytunedig fod yn angenrheidiol.

Mae gan y fframwaith adolygiad gan gymheiriaid dair adran, fel a ganlyn.

5.1 Rhestr wirio adolygiad gan gymheiriaid NIPEC

Dylai'r adolygwyr cymheiriaid ddefnyddio'r rhestr wirio'n ystod archwiliad arferol NIPEC babanod/newydd-anedig dan law yr ymarferwyr. Dylai ymarferwyr sgrinio NIPEC gael cydsyniad rhieni neu ofalwyr babanod cyn mynd ati i gynnal unrhyw adolygiad gan gymheiriaid.

Os yw ymarferydd NIPEC yn bodloni holl ofynion adolygydd cymheiriaid, fel y'u hamlinellir yn y bedwaredd adran uchod, mae hefyd yn bosibl cynnal adolygiadau rhwng cymheiriaid. Mae hyn yn ymwneud â'r holl gyfranogwyr yn arsylwi ar ei gilydd yn ystod archwiliadau arferol dilynol NIPEC babanod/newydd-anedig.

Dylid cwblhau pob manylyn ar y rhestr wirio gyda'r naill categori neu'r llall:

- Mae'r ymarferydd sgrinio'n cyflawni'r sgil neu'r weithdrefn yn gymwys, yn annibynnol ac yn ddiogel (✓)
- Nodau dysgu (ND) wedi'u nodi a chamau gweithredu cytunedig wedi'u dogfennu

5.2 Adolygiad gan gymheiriaid NIPEC: arferion da, nodau dysgu a chamau gweithredu cytunedig

Yn dilyn yr arsylwad clinigol, neilltuwch amser er mwyn i'r adolygydd cymheiriaid roi adborth ar lafar i'r ymarferydd NIPEC.

- Tynnwch sylw at unrhyw arferion da. Mae enghreifftiau o arferion da yn cynnwys:
 - meithrin perthynas dda â rhieni neu ofalwyr a defnyddio dulliau effeithiol o gyfathrebu neu egluro;
 - nodi a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau posibl. Gallai hyn gynnwys:
 - defnyddio cyfieithwyr/dehonglwyr yn effeithiol;
 - cynnig gwybodaeth ysgrifenedig yn yr iaith briodol pan fo ar gael;
 - cynnig 'gwybodaeth hawdd ei deall' i rieni neu ofalwyr ag anableddau dysgu;
- optimeiddio'r amodau ar gyfer yr archwiliad a defnyddio technegau clinigol

cadarn i gwblhau'r pedair elfen archwilio (yn unol â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru.)

Dylai'r adolygydd cymheiriaid drafod unrhyw nodau dysgu a nodir mewn modd cynorthwyol a'u dogfennu o fewn y fframwaith ochr yn ochr â'r camau gweithredu cytunedig. Mae enghreifftiau o nodau dysgu'n cynnwys:

- ↳ bylchau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth glinigol;
- ↳ anallu i gydnabod cyfyngiadau personol;
- ↳ gwelliannau, gan awgrymu gwiriadau / symudiadau arferol;
- ↳ defnydd anghywir o offer.

Gellir defnyddio unrhyw arfer da neu nodau dysgu fel cyfle i gyd-ddysgu drwy ystod y sefydliad (gan sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal).

Dylai'r adolygydd cymheiriaid a'r ymarferydd bennu dyddiad i gynnal trafodaeth derfynol ac adolygiad o'r camau gweithredu cytunedig. Dylid cwblhau pob cam gweithredu cyn y drafodaeth a'r adolygiad terfynol.

5.3 Trafodaeth ac adolygiad terfynol

Dylid defnyddio'r drafodaeth a'r adolygiad terfynol fel cyfle i'r ymarferwyr NIPEC a'r Adolygwyr Cymheiriaid ailymweld ag unrhyw gamau gweithredu cytunedig, sydd wedi'u dogfennu o fewn y fframwaith, a sicrhau eu bod wedi'u cyflawni'n foddhaol.

Dylid ymdrin ar raddfa leol ag unrhyw faterion sy'n parhau heb eu datrys, neu sydd

Mae'r ddogfen hon wedi'i hatgynhyrchu a'i haddasu i'w defnyddio yng Nghymru gyda chaniatâd caredig Rhaglen Sgrinio NIPE GIG Lloegr.